# ADRODDIAD CYRCHFAN DYFFRYN NANTLLE



Luned Rhys Parri

Mari Beynon Owen

Julia Thomason, Julia Thomason Associates

Rob Chambers, Chambers Conservation

**Cynnwys**


- Crynodeb Gweithredol
- Proffil Twristiaeth ac Ymwelwyr
- Isadeiledd a Gwasanaethau
- Asesiad o’r Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol
- Twristiaeth: Y Prif Heriau a’r Cyfleoedd

Atodiad 1: Astudiaeth o’r Asesiad o’r Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol

## 1 Crynodeb Gweithredol

Datblygwyd yr Adroddiad Cyrchfan i gyd-fynd â'r ddogfen *Strategaeth Bro Lleu,* a gomisiynwyd gan Grŵp Cynefin. Bydd y ddwy ddogfen yn cyfrannu at Gynllun Cyrchfan Dyffryn Nantlle sy'n cefnogi datblygiad Cais Safle Treftadaeth y Byd UNESCO i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

Amcanion yr Adroddiad Cyrchfan yw:

- Asesu'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau i ymwelwyr i Ddyffryn Nantlle
- Adolygu'r isadeiledd a'r gwasanaethau yn yr ardal
- Asesu'r amgylchedd adeiledig hanesyddol
- Ystyried y prif heriau a'r cyfleoedd i dwristiaeth yn yr ardal

Cynhaliwyd yr ymchwil a ganlyn:

- Asesiadau manwl o isadeiledd y pentref, y gwasanaethau, y cynnig i'r ymwelydd, a'r amgylchedd adeiledig hanesyddol, gan gynnwys archwiliad o safbwynt yr 'ymwelydd dirgel'
- Asesiad o brif gryfderau a gwendidau'r sector twristiaeth, yn ogystal â'r heriau a'r cyfleoedd.

Ynghyd â'r Adroddiad Cyrchfan paratowyd Cynllun Gweithredu, sydd yn nodi ac yn blaenoriaethu'r prosiectau cyfredol a'r rhai arfaethedig, a'r anodau gofynnol, amserlenni, arweinydd y prosiect a darpar bartneriaid. Mae hon hefyd yn ddogfen weithredol a gaiff ei diweddaru'n rheolaidd a'i hadolygu'n flynyddol gan Gyngor Gwynedd a'r budd-ddeiliaid. Mae'r prosiectau a restrir yn deillio o'r ymgynghoriad gyda'r gymuned a budd-ddeiliaid.

## 2. Asesiad Twristiaeth ac Ymwelwyr

Yn yr adran hon rydym yn asesu'r hyn y mae Dyffryn Nantlle yn ei gynnig i'r ymwelydd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r heriau i ddatblygu'r ardal i'r dyfodol.

Cyrraedd/Cynllun

Saif Penygroes, prif bentref Dyffryn Nantlle, hanner ffordd rhwng Porthmadog a Chaernarfon; mae'r brif ffordd, yr A487 yn osgoi'r pentref.

Mae yna arwydd brown â gwybodaeth i dwristiaid yn eich cyfeirio at Ddyffryn Nantlle, ond unwaith yr ydych wedi cyrraedd, nid oes unrhyw arwyddion eraill na chanolfan groeso amlwg.

Mae'r pentref ar wasgar a heb brif ganolbwynt iddi, heblaw am groesffordd brysur Heol y Dŵr, â Siop Griffiths a'r Banc ar bob ochr iddi.

Gwybodaeth ymwelwyr: cyfeiriadedd/arwyddion/gwybodaeth twristiaeth
Mae yna un hysbysfwrdd gwybodaeth dehongli yn y maes parcio gyferbyn â'r Co-op. Nid yw'n amlwg mai maes parcio cyhoeddus yw hwn, felly ni fyddai ymwelwyr o reidrwydd yn parcio yno. Mae angen diwygio gwybodaeth a dyluniad yr hysbysfwrdd.

Nid yw'n amlwg, wrth grwydro'r pentref, fod hon yn ardal chwarelyddol o bwys hanesyddol a diwylliannol mawr. Mae yna domennydd llechi'n uwch i fyny'r dyffryn ac, wrth gwrs, mae chwarel Dorothea a Phen yr Orsedd yn amlwg iawn. Nid oes unrhyw arwyddion i'ch tywys at Chwarel Dorothea i alluogi i chi ddarganfod yr olion treftadaeth ddiwydiannol pwysig yno.

Darperir llu o daflenni gwybodaeth a llyfrau am y diwydiant llechi yng nghanolfan Inigo Jones ar y ffordd fawr, a cheir rhai taflenni a gwybodaeth am yr ardal a digwyddiadau lleol yn y Banc ar Heol y Dŵr.

Cyfleusterau

**Cyfleusterau cyhoeddus:** mae toiledau at ddefnydd y cyhoedd yn Y Banc, Heol y Dŵr, sydd ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, 9.00 – 4.30; ac yn Inigo Jones ar yr A487, dydd Llun tan ddydd Sul, 9.00 – 5.00.

**Caffis/bwytai ym Mhenygroes a'r cyffiniau:**
Yr Orsaf – lle bywiog â bwyd cartref da; ar agor o ddydd Mawrth tan ddydd Sadwrn yn ystod y dydd; amser cinio dydd Sul.
Y Banc – deli yn hytrach na chaffi sy'n darparu coffi, brechdanau, cacennau. Mae'n gwerthu ystod eang o gynnyrch bwyd a diod lleol; ar agor yn ystod y dydd yn unig, dydd Llun tan ddydd Sadwrn.

Pant Du – caffi a bwyty ar safle'r winllan; bwyd o ansawdd da; staff croesawgar; lleoliad gwych. Ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sul, 10.30 – 4.30.

Caffi'r Eliffant, Canolfan Y Fron – caffi bach deniadol gyda golygfa banoramig dros Ddyffryn Nantlle, ar agor o ddydd Iau tan ddydd Llun, 9.30 – 3.30.

Yr Afr – tafarn sy'n gweini bwyd.
Beijing House - bwyty Tsieineaidd i fynd, ar agor drwy'r dydd a gyda'r nos
Melting Pot – caffi, ar agor yn ystod y dydd
Pecish - siop cebab a phitsa yng nghanol y pentref, ar agor yn ystod y dydd a gyda'r nos.
Penygroes Tandoori - bwyty Indiaidd i fynd, ar agor gyda'r nos yn unig
XXL, Siop sglodion - ar agor yn ystod y dydd a gyda'r nos.

Atyniadau a gweithgareddau i ymwelwyr

Dyma'r atyniadau i ymwelwyr yn yr ardal:

**Gwaith Llechi Inigo Jones** - busnes allforio llechi a sefydlwyd ym 1861; mae'r cwmni erbyn hyn wedi arallgyfeirio ac mae'n arbenigo mewn cynhyrchu llechi at ddefnydd yn y cartref, a beddfeini. Mae yma daith hunan dywys i ymwelwyr gyda chyflwyniad fideo sy'n dangos y peiriannau a'r crefftwyr wrth eu gwaith; mae'r gweithdai a'r siop ar agor trwy gydol y flwyddyn. Mae yma ddarpariaeth helaeth o lyfrau am ddiwydiant llechi Gogledd Cymru, crefftau llechen a gwybodaeth gyffredinol i dwristiaid. Mae caffi ar y safle sydd yn cael ei gyflenwi gan gigydd lleol.

**Gwinllan Pant Du** - sefydlwyd y winllan a'r berllan yn 2007, y gyntaf i gael eu gyrru gan ynni solar. Mae'r berllan yn cynhyrchu seidr o afalau seidr traddodiadol ac afalau Cymreig brodorol. Cynigir teithiau tywys o'r winllan, y berllan a'r ffynnon ddŵr, sy'n cynnwys sesiwn blasu a chinio, i grwpiau yn unig. Mae caffi a bar ar y safle mewn lleoliad godidog yn edrych dros Ddyffryn Nantlle.

**Chwarel Dorothea** - lleoliad poblogaidd i ddeifwyr *scuba*, ond rhaid bod yn aelod o glwb Deifwyr Technegol Gogledd Cymru (a sefydlwyd ym mis Awst 2018) a'r British Sub-Aqua Club (BSAC), a meddu ar gymwysterau technegol er mwyn cael mynediad. Ar agor dydd Sadwrn a dydd Sul drwy'r flwyddyn.

**Parc Gwledig Glynllifon** – gerddi eang a llwybrau cerdded drwy'r coed, gyda rhai yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio. Oriel gelf, siop, caffi ac unedau ar gyfer busnesau crefft.

**Cae'r Gors** - bwthyn chwarelwr, cartref yr awdures Kate Roberts; ar agor ar ddydd Mawrth yn unig o fis Ebrill 1 tan fis Mawrth 31, 2020; 10.00 - 4.00; fe'i rheolir gan Cadw.

Mae'r ardal yn boblogaidd iawn gyda cherddwyr (Llwybr Llechi Eryri) a beicwyr (Lôn Las Eifion)

Darpariaeth Llety

Byncws

Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu - adeiladau ysgol hanesyddol, cartref y bardd T H Parry Williams; lle i 31 mewn chwe ystafell wely, gyda chegin ac ystafell fwyta gymunedol; dan reolaeth Antur Nantlle.

Canolfan y Fron – byncws newydd sy'n rhan o ganolfan gymunedol; lle i 18 mewn pedair ystafell wely gydag ystafelloedd ymolchi *en suite*; ardal gymunedol a chegin; pwynt gwefru trydanol.

Basecamp Hostel, Llanllyfni - lle i 12 mewn dwy ystafell *en suite*, a thair ystafell yn rhannu ystafell ymolchi; cegin gymunedol.

Bydd byncws yn agor yn fuan fel rhan o adnoddau ymwelwyr Siop Griffiths/Yr Orsaf ym Mhenygroes.

Gwestai

Nid oes unrhyw westai wedi eu rhestru yn Nyffryn Nantlle; rhestrir un gwely a brecwast ym Mhenygroes ac un yn y Groeslon. (Mae nifer o westai yn y cyffiniau ac yn y dref agosaf, Caernarfon).

Mae Canolfan Trigonos, Nantlle yn cynnig llety gwely a brecwast, ond gan mai lleoliad ar gyfer cyrsiau/grwpiau ydi hwn yn bennaf, mae argaeledd i unigolion yn gyfyngedig.

Mae digonedd o lety hunan-ddarpar yn yr ardal ehangach, sy'n amrywio o'r sylfaenol i'r moethus.

Airbnb: Penygroes - 5; Talysarn - 8; Carmel - 5; Nantlle - 1; Y Fron - 3

Safleoedd Gwersylla/Glampio

Fferm Grafog – gerllaw Inigo Jones, safle gyda phebyll wedi eu gosod yn barod; un garafán barhaol.

Wigwam Camping, Fferm Graianog**,** Llanllyfni – nifer o bodiau gwersylla a safleoedd ar gyfer pebyll a charafanau teithiol ar fferm weithredol.

Talymignedd, Drws y Coed – safle gwersylla a charafanau

## 3 Isadeiledd a Gwasanaethau

**Bws:** Mae gwasanaeth lleol rhwng Penygroes, Carmel, Y Fron a Chaernarfon, o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn. (Tri bws y dydd yn cychwyn o Benygroes; pedwar arall yn cychwyn o Garmel).

Mae pum bws y dydd o Gaernarfon i Dalysarn/Nantlle, o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, 9.15 – 17.25; a phump ar ddydd Sul, 8.30 – 17.30.

Mae'r gwasanaeth bws o Gaernarfon i Borthmadog (naw bws y dydd, dydd Llun tan ddydd Sadwrn; pump ar ddydd Sul) yn stopio ym Mhenygroes, a rhai hefyd yn Llanllyfni, Nebo a Nasareth.
Mae tri bws o Borthmadog i Benygroes, o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn.

Mae'r gwasanaeth Trawscambria yn stopio ym Mhenygroes, 11 bws y dydd, dydd Llun tan ddydd Sadwrn; tri bws y dydd ar ddydd Sul a gwyliau banc.

Rhwng yr amrywiol wasanaethau mae mynediad ar fws i'r gyrchfan yn gymharol helaeth.

**Ffordd/Parcio:** Saif oddi ar yr A487, y briffordd sy'n cysylltu Porthmadog a Chaernarfon. Mae un maes parcio di-dâl, cyhoeddus ym Mhenygroes, er nad oes unrhyw hysbysfwrdd nac arwyddion i'ch cyfeirio chi yno. Mae llefydd parcio arhosiad byr ar y brif stryd, Heol y Dŵr.

Nid yw'n glir lle mae canol y pentref.

Llwybr Beic: mae Lôn Eifion yn mynd heibio Penygroes.

**Diwifr / Rhwydwaith symudol:** Diwifr am ddim ar gael yng Nghanolfan Hamdden Plas Silyn, a'r Llyfrgell ym Mhenygroes.

Proffil Ar-lein Dyffryn Nantlle
www.nantlle.com <http://www.nantlle.com> - gwefan gynhwysfawr, ddwyieithog am y Dyffryn; gwybodaeth i'r gymuned yn hytrach nag i ymwelwyr.

Adolygiadau gan ymwelwyr
Gan nad yw Penygroes yn cael ei ystyried fel cyrchfan dwristiaeth, prin yw'r adolygiadau am y pentref yn benodol, ond dyma rai sylwadau am yr ardal yn gyffredinol:

*"Lleoliad gwych ar gyfer ymweld ag Eryri"; "Tirwedd a golygfeydd anhygoel; lle tawel iawn."*

*"Llynnoedd Dorothea yn anhygoel - lliwiau'r llechen, y mynyddoedd o'u hamgylch a llonyddwch y dŵr dwfn"*

"*Lleoliad da ar gyfer ymweld ag Eryri ond bydd angen car arnoch. "*

## 4 Asesiad o'r Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol

Rydym wedi cynnal **Asesiad o'r Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol**, a defnyddiwyd y meini prawf a ganlyn:

**Gwarchodaeth Statudol:**

- Adeiladau rhestredig (yn ôl gradd: I, II*, II)
- Henebion Cofrestredig
- Adeiladau a nodweddion y tu mewn i Ardaloedd Cadwraeth.

**'Statws mewn perygl':**

- Fel y'u diffinnir gan gofrestr adeiladau mewn perygl Cadw (BAR) ym mhob ardal unigol. Dyma'r dosbarthiadau:
    - Mewn Perygl
    - Bregus
    - Ddim mewn perygl
- Yn seiliedig ar archwiliad byr o'r tu allan (gan nodi a yw'r defnydd yn amlwg, a yw'r adeilad yn ymddangos yn adfeiliedig neu'n fregus )

**Y cyd-destun o safbwynt treftadaeth y diwydiant llechi:**

- Y pwysigrwydd yng nghyd-destun treftadaeth diwydiant llechi'r ardal (er nad yw cwmpas y gwaith yn caniatáu asesiadau treftadaeth nac ymchwil ar adeiladau nac ar safleoedd unigol).
- Adborth trwy'r broses ymgynghori am amgyffrediad pobl leol o bwysigrwydd adeilad, nodwedd neu safle.
- Rhoi detholiad cynrychiadol o adeiladau a oedd yn cefnogi'r diwydiant llechi a'i chymunedau.

**Potensial adfywio a dehongli:**

- Potensial adeilad unigol neu safle i gyfrannu at adfywio'r ardal, darparu cyfleoedd dehongli arwyddocaol neu gyfleoedd eraill.

Nodwn ein canfyddiadau yn llawn yn Atodiad 1. Ond, nodier fod yr arolwg gwreiddiol o Benygroes wedi ei ehangu i gynnwys chwareli Nantlle, ond nid pentrefi Talysarn a Nantlle, er bod adeiladau rhestredig y ddau bentref wedi eu cynnwys ar y mapiau yn Atodiad 1.

Dyma grynodeb o'r prosiectau amgylchedd adeiledig wedi eu blaenoriaethu. Drwy adolygu'r safleoedd treftadaeth sydd wedi eu gwarchod (h.y. rhestredig neu gofrestredig) a'r rhai sydd hyd yma heb eu gwarchod, a chan ddefnyddio'r meini prawf uchod, daeth ambell ddarpar brosiect i'r amlwg.

Nid y safleoedd mwyaf arwyddocaol yw'r rhain o reidrwydd, ond maent yn cydbwyso arwyddocâd (yng nghyd-destun y diwydiant llechi) gyda'r potensial i gyfrannu at adfywiad cymunedol sylweddol. Rhestrir yr holl brosiectau yn y Cynllun Gweithredu atodol.

Ym mhentref Penygroes, ychydig o strwythurau hanesyddol (dynodedig) sydd. Mae'r gwaith diweddar ar Siop Griffiths (fe'i rhestrir fel Muriau Stores) wedi sicrhau dyfodol y strwythur bregus pwysicaf hwn y tu mewn i ffiniau'r pentref. Mae strwythurau eraill, heb eu dynodi, yn cynnig mwy o gyfleoedd ac fe'u nodir isod.

Y safleoedd mwyaf arwyddocaol, o ystyried y meini prawf uchod, yw'r rhai sydd yn chwareli Dyffryn Nantlle uwchben Penygroes. Mae tua 30 o adeiladau rhestredig yn safleoedd chwareli Dorothea a Phen-yr-orsedd, ac mae dynodiad 'mewn perygl' ar bob un ohonynt; hefyd mae yno henebion cofrestredig sylweddol. Mae angen gwerthusiad cydlynol o botensial yr adeiladau a'r nodweddion hyn i gael eu datblygu.

Dyma'r safleoedd â'r flaenoriaeth uchaf:

1. **Chwarel Dorothea.** Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i'r Injan Drawst/Adeilad yr Injan (II*) a'r strwythurau rhestredig cysylltiedig sydd agosaf at Dal-y-sarn. Mae angen gwerthusiad opsiynau cynhwysfawr o'r chwarel a'i strwythurau. Dylai hwnnw ymdrin â chadwraeth, neu â rheoli dadfeiliad y strwythurau; ailddefnydd neu adfer posib; a gydag ystyriaethau mynediad a dehongli cyffredinol.
2. **Chwarel Pen-yr-orsedd.** Mae angen gwerthusiad opsiynau cynhwysfawr o'r safle. Dylai hwnnw ymdrin â chadwraeth neu â rheoli dadfeiliad y strwythurau; y posibiliadau i ail-ddefnyddio neu adfer mewn rhai achosion; ac ystyriaethau mynediad a dehongli cyffredinol. Mae'n haws cael mynediad i'r casgliad o strwythurau ar y lefel isaf (uwchben Nantlle), sy'n cynnwys yr hen ysbyty, gweithdai, barics, ac o'r herwydd mae mwy o bosibiliadau adfywio ar gyfer gweithle, llety neu ddefnydd arall. Dylid hefyd ystyried cadwraeth, mynediad a dehongli yn ardal y rhaffyrdd Blondin, gan fod arwyddocâd arbennig iddynt.
3. **Trewedd Penygroes.** Mae Penygroes wedi dioddef yn sgil y defnyddiau anghydnaws sy'n gorchuddio nifer o adeiladau, y gro chwipio toreithog (yn hytrach na deunyddiau traddodiadol) ac, o'r oherwydd, mae'r pentref yn edrych yn ddilewyrch. Gellid gwella ymddangosiad y pentref yn fawr drwy gyflwyno rhaglen benodol o welliannau, addurno neu gael gwared â'r gro chwipio, ail-gyflwyno nodweddion traddodiadol, a chynnal gwaith i dwtio'r stryd. Dylai hyn gyd-fynd â strategaeth ac ethos dylunio clir, wedi eu seilio ar ddealltwriaeth o gymeriad y pentref.
4. **Gwella cysylltedd.** Sefydlu rhwydwaith o lwybrau newydd yn cysylltu'r pentref â'r chwareli yn seiliedig ar y llwybrau presennol. Buasai llwybr ar hyd afon Llyfni at Chwarel Dorothea yn cyfrannu at y profiad o werthfawrogi'r dyffryn ac yn creu cyfleoedd dehongli newydd, yn arbennig drwy'r cysylltiadau gyda'r Mabinogi.

## 5 Y Prif Heriau a'r Cyfleoedd

Yn dilyn ein hymgynghoriad a'n hymchwil mae'n amlwg fod twristiaeth yn Nyffryn Nantlle yn wynebu rhai heriau sylfaenol a bydd angen mynd i'r afael â'r rhain os yw'r ardal am wneud y gorau o'r budd a ddaw gydag enwebiad Safle Treftadaeth y Byd. Dyma grynodeb o'r prif heriau a'r cyfleoedd:

Dadansoddiad SWOT (CGCB)

Mae'r dadansoddiad SWOT (CGCB) yn asesu Dyffryn Nantlle o safbwynt yr ymwelydd, gan grynhoi cryfderau, gwendidau, cyfleodd a bygythiadau'r hyn sydd ganddo i gynnig i'r ymwelydd.

| CRYFDERAU: | GWENDIDAU: |
|---|---|
| • Lleoliad rhwng dwy brif gyrchfan dwristiaeth, Porthmadog a Chaernarfon.<br><br>• Cysylltiadau bws da<br><br>• Tirwedd odidog a golygfa o'r Wyddfa; harddwch naturiol ysblennydd<br><br>• Agos at yr Wyddfa<br><br>• Mae atyniad twristiaeth Inigo Jones yn rhoi dehongliad bywiog o hanes y diwydiant llechi.<br><br>• Ardal ddiwylliannol fywiog, o ddiddordeb arbennig i ymwelwyr Cymraeg eu hiaith – y nifer o feirdd a llenorion lleol yn arwydd o ymroddiad y chwarelwr i addysg a hunaniaeth ddiwylliannol.<br><br>• Nifer o gysylltiadau gyda'r Mabinogi, sy'n denu ymwelwyr rhyngwladol ac o Gymru | • Mae'r A487 yn osgoi Penygroes/Dyffryn Nantlle<br>• Ddim yn gyrchfan dwristiaeth<br>• Dim atyniadau twristiaeth o bwys<br>• Dim ffyrdd golygfaol wedi eu marcio ac felly ymwelwyr yn mynd heibio heb ddirnadaeth o'i harddwch naturiol<br>• Diffyg mannau gwybodaeth/ dehongli<br>• Dim llawer o olion o'r dreftadaeth ddiwydiannol ym mhentref Penygroes na gwybodaeth fod Chwarel Dorothea ym mhen pellaf y dyffryn<br>• Llefydd bwyta ar agor yn ystod y dydd yn unig heblaw am y rhai bwyd i fynd<br>• Dim dehongli yn chwarel Dorothea er y cyfoeth o adeiladau a nodweddion<br>• Brandio gwan; diffyg statws cyrchfan gan Benygroes<br>• Brandio cymysglyd – mae mentrau blaenorol wedi hyrwyddo Bro Lleu yn hytrach na Dyffryn Nantlle.<br>• Prinder llety o safon, heblaw am rai hunan-ddarpar, yn Nyffryn Nantlle ei hun |

| CYFLEOEDD: | BYGYTHIADAU: |
|---|---|
| • Cyfle i ddatblygu brand a negeseuon marchnata cadarn ar sail y diwydiant llechi; hefyd lleoliadau'r Mabinogi<br>• Ymchwilio i'r posibiliadau o osod mwy o arwyddion gwybodaeth/dehongli, a datblygu mwy o ddigwyddiadau er mwyn hyrwyddo a dathlu treftadaeth ddiwydiannol a diwylliannol yr ardal<br>• Creu llwybrau newydd yn cysylltu gyda'r chwareli; llwybr ar hyd yr afon i archwilio harddwch naturiol y dyffryn<br>• Creu presenoldeb cryfach i ddathlu etifeddiaeth lenyddol unigryw'r Mabinogi ac etifeddiaeth weledol Richard Wilson<br>• Gellid datblygu Chwarel Dorothea (o'i gwneud yn ddiogel) fel cyrchfan i ymwelwyr – a fyddai'n cynnig gweithgareddau hamdden a theithiau tywys hanesyddol<br>• Siop Griffiths ac Antur Nantlle i gydweithio ar fentrau marchnata er mwyn cryfhau amlygrwydd marchnata'r ardal yn gyffredinol. | • Perygl y bydd dealltwriaeth o dreftadaeth y diwydiant mynd yn angof os na chyflwynir cyfleusterau dehongli cynhwysfawr<br>• Gallai adeiladau Chwarel Dorothea ddirywio ymhellach; bydd y safle yn mynd yn fwy peryglus yn arbennig i'r sawl sydd yn ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau hamdden<br>• Agwedd amddiffynol yn cynyddu'r perygl o gystadleuaeth/dyblygu diangen rhwng y prif fudiadau sy'n datblygu cyfleusterau i ymwelwyr<br>• Marchnata cyrchfan ddim yn cael ei gydlynu'n glir rhwng mudiadau cymunedol a busnesau preifat<br>• Diffyg cytundeb rhwng cynghorau cymunedol ar frandio'r gyrchfan a'i marchnata<br>• Colli cyfleoedd yn sgil amharodrwydd i gynnwys gwahanol fudiadau a busnesau yn y strategaeth dwristiaeth. |

## **Atodiad 1 Astudiaeth o Asesiad yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol**

Matrics adeiladau a nodweddion – Penygroes a Nantlle
WSTS.01 Adeiladau Rhestredig Penygroes
WSTS.02 Chwareli Nantlle, adeiladau rhestredig
WSTS.04 Adeiladau a nodweddion eraill, Penygroes
WSTS.07 Cyfleoedd, Penygroes